*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro camgymeriadau yn O.S. 2021/1294 (Cy. 328) ac mae'n cael ei ddyroddi'n rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

# 2022 Rhif 49 (Cy. 18)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau yn Rheoliadau 2014 ac yn gwneud darpariaeth bellach yn Rheoliadau 2018 ynghylch cymhwystra dinasyddion Gwyddelig penodol i gael cymorth i fyfyrwyr.

Ystyriwyd Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*This Statutory Instrument has been printed to correct errors in S.I. 2021/1294 (W. 328) and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

# 2022 No. 49 (W. 18)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Eligibility for Student Support) (Amendment) (Wales) Regulations 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014 ("the 2014 Regulations") and the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations").

The amendments made by these Regulations correct errors in the 2014 Regulations and make further provision in the 2018 Regulations about the eligibility of certain Irish citizens to receive student support.

The Welsh Ministers' Regulatory Impact Assessment Code for Subordinate Legislation has been considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 49 (Cy. 18)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Ionawr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *19 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym* | *11 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022.

**2.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Chwefror 2022.

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) ac adran 22(2)(a) gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86(3)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(a) ac adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Darparodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 2004 i'w harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 49 (W. 18)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Eligibility for Student Support) (Amendment) (Wales) Regulations 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *17 January 2022* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *19 January 2022* |
| *Coming into force* | *11 February 2022* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State under sections 22(1)(a), 22(2)(a) and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**), make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1.** The title of these Regulations is the Education (Eligibility for Student Support) (Amendment) (Wales) Regulations 2022.

**2.** These Regulations come into force on 11 February 2022.

(**1**) 1998 c. 30; section 22(1) and section 22(2)(a) were amended by the Higher Education and Research Act 2017 (c. 29), section 86(3)(a). *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The functions of the Secretary of State in section 22(1)(a) and section 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, article 2 and Schedule 1 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Section 44 of the Higher Education Act 2004 provided that the functions in section 22(2)(a) of the Teaching and Higher Education Act 2004 were to be exercised by the National Assembly for Wales concurrently with the Secretary of State, so far as they relate to making provision in relation to Wales.

**3.** Mae rheoliadau 4 i 6 yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

**4.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 5 a 6.

**5.** Yn rheoliad 3, yn y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" ym mharagraff (a) o'r diffiniad hwnnw yn lle "paragraff 289B" rhodder "paragraffau 289B a 289D".

**6.** Yn Atodlen 1, yn lle paragraff 9B rhodder—

"**9B.**—(1) Person—

(a) sydd ar y dyddiad perthnasol—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig; neu

(ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i);

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio; neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio arferol hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio arferol yn y diriogaeth y mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn y dyddiad perthnasol;

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;

(**1**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4) ac O.S. 2021/1294 (Cy. 328).

**3.** Regulations 4 to 6 apply in relation to the provision of support to a student in relation to an academic year which begins on or after 1 September 2022, whether or not anything done under these Regulations is done before, on or after that date.

### Amendments to the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014

**4.** The Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014(**1**) are amended in accordance with regulations 5 and 6.

**5.** In regulation 3, in the definition of "person granted leave to remain as a protected partner" in paragraph (a) of that definition for "paragraph 289B" substitute "paragraphs 289B and 289D".

**6.** In Schedule 1, for paragraph 9B substitute—

"**9B.**—(1) A person—

(a) who on the relevant date is—

(i) a United Kingdom national; or

(ii) a family member of a person mentioned in sub-paragraph (i);

(b) who was ordinarily resident immediately before IP completion day—

(i) in the territory comprising the European Economic Area and Switzerland; or

(ii) in the United Kingdom, where that ordinary residence began after 31 December 2017 immediately following a period of ordinary residence in the territory comprising the European Economic Area and Switzerland,

and has remained ordinarily resident in the territory comprising the United Kingdom, Gibraltar, the European Economic Area and Switzerland throughout the period beginning on IP completion day and ending immediately before the relevant date;

(c) who is ordinarily resident in Wales on the relevant date;

(**1**) S.I. 2014/3037 (W. 303), amended by S.I. 2016/211 (W. 84), S.I. 2018/814 (W. 165), S.I. 2019/235 (W. 54), S.I. 2019/1192 (W. 209), S.I. 2020/1302 (W. 287), S.I. 2021/9 (W. 4) and S.I. 2021/1294 (W. 328).

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad yw wedi preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio yn unol â pharagraff 1(7).

(3) Pan fo person ("P") yn dod o fewn is-baragraff (1)(a)(ii), rhaid i'r person y mae P yn aelod o'r teulu mewn perthynas ag ef hefyd fodloni gofynion is-baragraff (1)(b) a (d)."

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018**

**7.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 8.

**8.** Yn eithriad 2 ym mhob un o reoliadau 44(1), 54, 62(2) a 69(2), ar ôl "6A(1)," mewnosoder "6BA,".

(d) who has been ordinarily resident in the territory comprising the United Kingdom, Gibraltar, the European Economic Area and Switzerland throughout the three-year period preceding the relevant date; and

(e) subject to sub-paragraph (2), whose ordinary residence in the territory comprising the United Kingdom, Gibraltar, the European Economic Area and Switzerland has not during any part of the period referred to in paragraph (d) been wholly or mainly for the purpose of receiving full-time education.

(2) Paragraph (e) of sub-paragraph (1) does not apply to a person who is treated as being ordinarily resident in the territory comprising the United Kingdom, Gibraltar, the European Economic Area and Switzerland in accordance with paragraph 1(7).

(3) Where a person ("P") falls within sub-paragraph (1)(a)(ii), the person in relation to whom P is a family member must also meet the requirements of sub-paragraph (1)(b) and (d)."

**Amendment to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018**

**7.** The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**1**) are amended in accordance with regulation 8.

**8.** In exception 2 in each of regulations 44(1), 54, 62(2) and 69(2), after "6A(1)," insert "6BA,".

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
17 Ionawr 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
17 January 2022

©ⓗHawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/708 (Cy. 159); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148); O.S. 2021/813 (Cy. 192) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

(**1**) S.I. 2018/191 (W. 42), amended by S.I. 2018/813 (W. 164); S.I. 2018/814 (W. 165); S.I. 2019/235 (W. 54); S.I. 2019/1094; S.I. 2019/1192 (W. 209); S.I. 2020/142 (W. 25); S.I. 2020/153 (W. 27); S.I. 2020/708 (W. 159); S.I. 2020/1302 (W. 287); S.I. 2021/9 (W. 4); S.I. 2021/73 (W. 19); S.I. 2021/481 (W. 148); S.I. 2021/813 (W. 192) and S.I. 2021/1365 (W. 360).

ISBN 978-0-348-39226-5

£4.90



9 780348 392265